


DOGFEN 8.10

Crynodeb o'r Adroddiad Dylunio

National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)

*Regulation 5(2)(q) of the Infrastructure Planning
(Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009*



Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Cyfrol 8

Dogfen 8.10

Crynodeb o'r Adroddiad Dylunio

National Grid
National Grid House
Warwick Technology Park
Gallows Hill
Warwick
CV34 6DA

Rheolaeth y Ddogfen			
Priodweddau'r Ddogfen			
Sefydliad	National Grid		
Awdur	Andrew Killip		
Cymeradwywyd gan	Jacqui Fenn		
Teitl	Crynodeb o'r Adroddiad Dylunio		
Cyfeirnod y Ddogfen	8.10		
Hanes y Fersiynau			
Dyddiad	Fersiwn	Statws	Disgrifiad/Newidiadau
03/09/2018	A	Terfynol	Rhifyn 1 ^{af}

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
1.1	Pwrpas yr adroddiad	1
2	Adran A: Wylfa i Rosgoch	2
2.1	Cyflwyniad	2
2.2	Newidiadau Dylunio ers Cam 3 yr Ymgynghoriad	2
3	Adran B: Rhosgoch i Landyfrydog	5
3.1	Cyflwyniad	5
3.2	Newidiadau Dylunio ers Cam 3 yr Ymgynghoriad	5
4	Adran C: Llandyfrydog i'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn	8
4.1	Cyflwyniad	8
4.2	Newidiadau Dylunio ers Cam 3 yr Ymgynghoriad	8
5	Adran D: B5110 i'r gogledd o Dalwrn i Ceint	12
5.1	Cyflwyniad	12
5.2	Newidiadau Dylunio ers Cam 3 yr Ymgynghoriad	12
5.3	Compownd Adeiladu Lôn Penmynydd	14
6	Adran E: Ceint i Afon Braint	15
6.1	Cyflwyniad	15
6.2	Newidiadau Dylunio ers Cam 3 yr Ymgynghoriad	15
7	Adran F: Afon Braint i Bentir	17
7.1	Cyflwyniad	17
7.2	Newidiadau Dylunio ers Cam 3 yr Ymgynghoriad	17
8	Casgliad	22

1 Cyflwyniad

1.1 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1.1 Paratowyd yr Adroddiad Dylunio gan National Grid i ddarparu trosolwg o'r rhesymeg dylunio ar gyfer y cysylltiad trawsyrru trydan newydd y mae National Grid yn bwriadu ei ddatblygu rhwng is-orsafoedd yn Wylfa, ar arfordir gogledd Ynys Môn, a Phentir, ar y tir mawr yng Ngwynedd ('y Datblygiad Arfaethedig'). Mae'n amlinellu sut mae'r dewisiadau dylunio hyn wedi ceisio lleihau effeithiau amgylcheddol y Datblygiad Arfaethedig. Mae'n dangos bod y dyluniad wedi ymgorffori Lliniaru trwy Ddylunio¹ er mwyn osgoi neu leihau effeithiau amgylcheddol sylweddol lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- 1.1.2 Mae ffurf a dyluniad y Datblygiad Arfaethedig wedi esblygu drwy gydol y prosiect, ac mae adborth a gafwyd yn ystod ac yn dilyn yr holl ymgynghori a wnaed, gan gynnwys Cam 1, Cam 2, a Cham 3 yr Ymgynghoriad, wedi dylanwadu arno. Mae crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy gydol y prosiect wedi ei gynnwys yn y Crynodeb o Adroddiad yr Ymgynghoriad **(Dogfen 8.8)**.
- 1.1.3 Mae crynodeb o hanes y prosiect hyd yma, gan gynnwys trosolwg lefel uchel o'r penderfyniadau a gymerwyd ar wahanol gamau o'r prosiect, i'w gweld yn Hanes y Prosiect **(Dogfen 8.11)**.
- 1.1.4 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi elfennau o'r Adroddiad Dylunio **(Dogfen 7.17)** i ddarparu trosolwg lefel uchel o'r penderfyniadau dylunio a gymerwyd ers Cam 3 yr Ymgynghoriad (a arweiniodd at y Datblygiad Arfaethedig) i leihau effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol posibl. Mae Penodau 2 i 7 yn cynnwys disgrifiad o'r newidiadau hyn ar gyfer pob rhan o'r llwybr (Adrannau A i F yn y drefn honno).

¹ Lliniaru trwy Dylunio yw un o'r tri chategori o liniaru y cyfeirir atynt o fewn y Datganiad Amgylcheddol, ac mae'n cynnwys mesurau sydd wedi eu cynnwys yn y dyluniad, fel dyluniad y llinell uwchben, Terfynau Gwro i osgoi rhai derbynyddion a lleoliad y Tai Pen Twannel/Compowndiau Terfyn Selio Ceblau. Mae manylion llawn am hyn ym Mhennod 6 y Datganiad Amgylcheddol - Methodoleg EIA a Sail Asesu **(Dogfen 5.6)**

2 Adran A: Wylfa i Rosgoch

2.1 CYFLWYNIAD

2.1.1 Mae'r Adroddiad Dylunio yn cynnwys disgrifiad cryno o'r agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig yn Adran A ynghyd â'r rhesymeg dylunio lleol. Y mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad yn dilyn Ymgynghori ar Gam 3.

2.2 NEWIDIADAU DYLUNIO ERS CAM 3 YR YMGYNGHORIAD

2.2.1 Isod, ceir crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad parhaol a thros dro yn Adran A o'r llwybr ers Cam 3 yr Ymgynghoriad.

Gwaith Parhaol

Is-orsaf Wylfa

2.2.2 Cynigiwyd estyniad ar ffin ddeheuol Is-orsaf Wylfa yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad. Seiliwyd cynllun yr is-orsaf a gyflwynwyd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad ar sefyllfa waethaf.

2.2.3 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, ystyriodd National Grid newid i gynllun Is-orsaf Wylfa, ac mae cwblhau'r gofynion peirianeg wedi cadarnhau na fyddai angen yr estyniad arfaethedig blaenorol i'r de; dim ond adliniad lleol llinell ffens bresennol y compownd i ddarparu ar gyfer y gwaith arfaethedig.

2.2.4 Mae'r penderfyniad dylunio hwn wedi lleihau ôl troed cyffredinol y datblygiad posibl yn Is-orsaf Wylfa ers yr hyn a gynigiwyd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad, gan leihau effeithiau amgylcheddol posibl ac sydd felly'n cynrychioli Lliniaru trwy Ddylunio lleol pwysig.

Aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4ZA005 – 4ZA014

2.2.5 Yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad roedd National Grid yn cynnig mynd ag adran newydd y llinell uwchben i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo preswyl yng Nghae Adda Fach, er mwyn osgoi'r llwybr yn mynd dros gwrtil yr eiddo. Byddai hyn hefyd wedi dod â'r llwybr yn agosach at eiddo yn Nhŷ Newydd, Bryngwyn a Gors. Byddai'r alinio wedi golygu bod y ddau lwybr yn amrywio, cyn cydgyfeirio eto i'r de ar beilon arfaethedig 4ZA014.

2.2.6 Gan gydnabod y byddai'n anodd lliniaru'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr eiddo yng Nghae Adda Fach yn effeithiol, gwnaed newid i'r adran arfaethedig o linell uwchben newydd rhwng peilonau arfaethedig 4ZA005 a 4ZA014. Yn

dilyn trafodaeth gyda'r PIL², mae National Grid wedi caffael yr eiddo yn wirfoddol erbyn hyn, ac o ganlyniad byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn awr yn mynd dros y tŷ a byddai'n cael gwarded ar ddefnydd preswyl Cae Adda Fach (fel y manylir yn yr Atodlen Ymrwymadau Amgylcheddol (**Dogfen 7.4.2.1**)).

- 2.2.7 Byddai'r newid yn golygu bod y llinell uwchben mor bell i'r de â phosibl o'r eiddo yn Nhŷ Newydd, Bryngwyn a Gors. Roedd y newid hwn yn galluogi sythu'r aliniad, gan osgoi'r gofyniad i 'wro' i'r gogledd yn 4ZA008 er mwyn mynd o gwmpas yr eiddo. Byddai hyn yn dileu'r gofyniad ar gyfer peilonau tensiwn yn y lleoliad hwn, a byddai hefyd yn arwain at un peilon yn llai, gan na fyddai angen peilon arfaethedig 4ZA011 mwyach.
- 2.2.8 Ar Gam 3 yr Ymgynghoriad, byddai'r angen am beilon ychwanegol a'r angen i fynd o amgylch Cae Adda Fach wedi cyflwyno rhan anghyson o'r llwybr yn yr ardal hon. Yn dilyn y newid i'r dyluniad, mae peilon arfaethedig 4ZA010 wedi ei baru â pheilon presennol 4AP007, a byddai'n cael ei ystyried fel cam cysoni, gan leihau ymhellach yr effeithiau amgylcheddol posibl yn y lleoliad hwn. Gan hynny, mae'r newid hwn i'r dyluniad, y mae National Grid yn frwd o'i blaid, yn cynrychioli Lliniaru drwy Ddylunio lleol sylweddol.
- 2.2.9 Mae'r newid arfaethedig i beilonau 4ZA005 - 4ZA014 yn cael ei ddangos yn Ffigurau A-1 i A-3 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Peilon Arfaethedig 4ZA019

- 2.2.10 Yn dilyn cais PIL, gwnaed newid i symud peilon 4ZA019 ymhellach i'r dwyrain i sicrhau y byddai'n agosach at ffin y cae.
- 2.2.11 Mae'r newid arfaethedig i beilon 4ZA019 yn cael ei ddangos yn Ffigur A-4 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Gwaith Dros Dro

Ceg cloch

- 2.2.12 Cynigir 11 o bwyntiau mynediad ceg cloch er mwyn galluogi traffig adeiladu i gael mynediad at y Datblygiad Arfaethedig yn Adran A. Mae hwn yn gynydd bychan ar y 10 pwynt mynediad ceg cloch a gynigiwyd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad.

² Unigolyn â buddiant mewn tir

2.2.13 Mae'r Adroddiad Dylunio yn rhoi manylion am bedwar lleoliad lle mae lleoliadau ceg cloch wedi cael eu newid ers Cam 3 yr Ymgynghoriad. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig i leoliadau arfaethedig ceg cloch yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio.

Traciau Mynediad

2.2.14 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i gynigion mynediad ar gyfer gwaith National Grid a gwaith Trydydd Parti yn Adran A.

2.2.15 Mae'r Adroddiad Dylunio'n darparu manylion sy'n ymwneud â newidiadau i 11 rhan o lwybr mynediad National Grid a naw rhan o drac mynediad Trydydd Parti.

2.2.16 Mae'r newidiadau i gynigion mynediad wedi deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adborth ymgynghori a gwaith dylunio parhaus gan dîm y prosiect. Mae symudiadau i'r seilwaith gweithredol hefyd wedi arwain at nifer o gynigion o ran mynediad.

2.2.17 Dangosir yr holl newidiadau arfaethedig i draciau mynediad National Grid yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio. Dangosir newidiadau i waith Trydydd Parti yn **Atodiad E** yr Adroddiad Dylunio.

3 Adran B: Rhosgoch i Landyfrydog

3.1 CYFLWYNIAD

3.1.1 Mae'r Adroddiad Dylunio yn cynnwys disgrifiad cryno o'r agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig yn Adran B ynghyd â'r rhesymeg dylunio lleol. Y mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad yn dilyn Ymgynghori ar Gam 3.

3.2 NEWIDIADAU DYLUNIO ERS CAM 3 YR YMGYNGHORIAD

3.2.1 Isod, ceir crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad parhaol a thros dro yn Adran B o'r llwybr ers Cam 3 yr Ymgynghoriad.

Gwaith Parhaol

Aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4ZA025 – 4ZA028

3.2.2 Gwnaed newid i aliniad yr adran newydd arfaethedig o'r llinell uwchben rhwng peilonau 4ZA025 a 4ZA028. Yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad roedd National Grid yn cynnig mynd ag adran newydd y llinell uwchben i'r gogledd o'r eiddo preswyl ym Mryn Alaw, er mwyn osgoi'r llwybr yn mynd dros gwrtil yr eiddo. Roedd hyn yn mynd â'r llinell uwchben ar draws rhan fechan o dir agored a gafodd ganiatâd cynllunio yn flaenorol ar gyfer datblygu eiddo preswyl. Byddai hefyd wedi dod â'r llwybr yn agosach at eiddo ym mhentref Rhosgoch (gan gynnwys Trigfa, Bryn Aul a Fferm Rhosgoch), o'i gymharu ag aliniad cyfochrog agos i'r gogledd o'r llinell uwchben bresennol, a oedd yn cynnwys y ddau lwybr yn ymledu, cyn cydgyfeirio eto i'r de o'r pentref. Roedd National Grid o'r farn y byddai effeithiau sylweddol wedi digwydd ym Mryn Alaw oherwydd agosrwydd y llinell uwchben bresennol a newydd y naill ochr a'r llall i'r eiddo.

3.2.3 Roedd National Grid yn cydnabod y byddai caffael yr eiddo ym Mryn Alaw yn caniatáu cynnal aliniad cyfochrog agos. Mae National Grid wedi caffael yr eiddo yn wirfoddol yn awr, ac o ganlyniad byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn awr yn mynd dros y tŷ ac yn cael gwared ar ddefnydd preswyl (fel y manylir yn yr Atodlen Ymrwymadau Amgylcheddol (**Dogfen 7.4.2.1**)).

3.2.4 Yn ogystal ag osgoi effeithiau sylweddol ym Mryn Alaw, byddai'r newid hwn i'r dyluniad hefyd yn arwain at leihau effeithiau drwy: gynyddu'r pellter rhwng

y llinell uwchben newydd a'r eiddo yn Rhosgoch; cael gwared ar wahaniaeth y llwybr yn yr ardal hon, a chynyddu alinio'r dyluniad gyda'r llinell uwchben bresennol a newydd arfaethedig i'r de. Yn benodol, byddai lleoliad peilonau 4ZA027 a 4AP023 yn cael eu 'halinio'n fras', a byddai peilonau 4ZA028 a 4AP024 yn cael eu hystyried fel rhai wedi eu 'halinio'. Cyn hynny, ystyriwyd bod lleoliadau arfaethedig y pedwar peilon yn rhai heb eu halinio. Gan hynny, mae'r newid hwn i'r dyluniad, y mae National Grid yn frwd o'i blaid, yn cynrychioli Lliniaru drwy Ddylunio lleol sylweddol.

- 3.2.5 Mae'r newid arfaethedig i beilonau 4ZA025 - 4ZA028 yn cael ei ddangos yn Ffigurau A-5 i B-1 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Peilonau Arfaethedig 4AP024 a 4ZA028

- 3.2.6 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed newid i ddefnyddio dyluniad peilon llai swmpus ym mheilonau arfaethedig 4AP024 a 4ZA028.

Aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4AP028 – 4AP037

- 3.2.7 Gwnaed newid i'r aliniad a lleoliadau peilonau rhwng peilon arfaethedig 4AP028 a 4AP037 yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad.

- 3.2.8 Yn dilyn cais PIL, mae peilon arfaethedig 4AP030 wedi symud oddeutu 36m i'r gogledd orllewin er mwyn sicrhau ei fod yn agosach at ffin y cae. Byddai'r peilon hwn yn awr yn cael ei alinio â pheilon 4ZA034. O ganlyniad i symud 4AP030, mae newidiadau cysylltiedig i leoliadau peilonau wedi eu gwneud yn 4AP029, 4AP032, 4AP033, 4AP034 a 4AP035.

- 3.2.9 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP031 yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad. Yn dilyn cais PIL, cafodd y peilon arfaethedig ei ail-leoli tua 34 m i'r dwyrain er mwyn sicrhau y byddai'n agosach at gornel ffin y cae; byddai hyn yn sicrhau bod mwy o'r cae ar gael i'r PIL yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig.

- 3.2.10 Mae'r peilon arfaethedig 4AP036 wedi symud oddeutu 100m i'r de ddwyrain a byddai'n cael ei leolir yn agosach at ffin y cae er mwyn sicrhau y byddai'n alinio â pheilon 4ZA040 yn union i'r de-ddwyrain o Barc Carafanau Bryn Goleu. Byddai hyn yn sicrhau y byddai'r cynllun yn cydymffurfio'n well â Rheol 6 Holford a'i nodyn atodol.

- 3.2.11 Mae'r adliniad rhwng peilonau arfaethedig 4AP028 a 4AP037 wedi arwain at gydredeg agosach â rhan bresennol llinell uwchben 4ZA.

- 3.2.12 Mae'r newid i'r aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4AP028 – 4AP037 yn cael ei ddangos yn Ffigurau B-2 i B-4 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Gwaith Dros Dro

Ceg cloch

- 3.2.13 Cynigir 11 o bwyntiau mynediad ceg cloch er mwyn galluogi traffig adeiladu i gyrraedd y Datblygiad Arfaethedig. Mae hyn yn ostyngiad o'r 17 ceg cloch a gynigir yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad sylweddol yn nifer y pwyntiau mynediad ceg cloch arfaethedig oddi ar y B5111 yn yr ardal hon o chwech i ddau.
- 3.2.14 Mae'r Adroddiad Dylunio yn rhoi manylion am naw lleoliad lle mae lleoliadau ceg cloch wedi cael eu newid ers Cam 3 yr Ymgynghoriad. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig i leoliadau arfaethedig ceg cloch yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio.

Traciau Mynediad

- 3.2.15 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i gynigion mynediad ar gyfer gwaith National Grid a gwaith Trydydd Parti yn Adran B.
- 3.2.16 Mae'r Adroddiad Dylunio'n darparu manylion sy'n ymwneud â newidiadau i 16 rhan o lwybr mynediad National Grid ac 11 rhan o drac mynediad Trydydd Parti.
- 3.2.17 Mae'r newidiadau i gynigion mynediad wedi deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adborth ymgynghori a gwaith dylunio parhaus gan dîm y prosiect. Mae symudiadau i'r seilwaith gweithredol hefyd wedi arwain at nifer o gynigion o ran mynediad.
- 3.2.18 Dangosir yr holl newidiadau arfaethedig i draciau mynediad National Grid yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio. Dangosir newidiadau i waith Trydydd Parti yn **Atodiad E** yr Adroddiad Dylunio.

4 Adran C: Llandyfrydog i'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn

4.1 CYFLWYNIAD

- 4.1.1 Mae'r Adroddiad Dylunio yn cynnwys disgrifiad cryno o'r agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig yn Adran C ynghyd â'r rhesymeg dylunio lleol. Y mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad yn dilyn Ymgynghori ar Gam 3.
- 4.1.2 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3 y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfen 5.3**), mae dau ddewis wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft mewn perthynas â'r llinell uwchben 400kV (Dewis A a Dewis B). Yn Adran C, byddai hyn yn golygu bod lleoliadau peilonau arfaethedig ychydig yn wahanol rhwng y ddau ddewis. Lle byddai newid arfaethedig yn benodol i'r dewis, nodir hyn isod.

4.2 NEWIDIADAU DYLUNIO ERS CAM 3 YR YMGYNGHORIAD

- 4.2.1 Isod, ceir crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad parhaol a thros dro yn Adran C o'r llwybr ers Cam 3 yr Ymgynghoriad.

Gwaith Parhaol

Aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4ZA043 – 4ZA047

- 4.2.2 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4ZA045 ers Cam 3 yr Ymgynghori yn dilyn adborth gan PIL. Mae'r peilon arfaethedig wedi cael ei symud tua 40m i'r gogledd-orllewin i sicrhau bod peiriannau fferm yn gallu gweithredu'n effeithlon yn ystod y cyfnod gweithredol.
- 4.2.3 Mae adleoli peilon arfaethedig 4ZA045 wedi arwain at ail-osod ychydig ar beilonau arfaethedig 4ZA043, 4ZA044, a 4ZA046 gerllaw er mwyn cadw at y rhychwant priodol.
- 4.2.4 Mae'r newid i'r aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4ZA043 – 4ZA047 yn cael ei ddangos yn Ffigurau C-1 i C-2 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4AP041 – 4AP048

- 4.2.5 Gwnaed newid i aliniad adran arfaethedig llinell uwchben 4AP rhwng peilonau arfaethedig 4AP041 a 4AP048. Tarddiad y newid oedd cais i symud peilon arfaethedig 4AP043 ymhellach i ffwrdd i'r gogledd o eiddo preswyl.
- 4.2.6 O ganlyniad i'r newid hwn, roedd yn ofynnol symud peilonau arfaethedig 4AP042, 4AP044, 4AP045 a 4AP047.
- 4.2.7 Mae'r newidiadau yn cael eu dangos yn Ffigurau C-1 i C-3 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Peilon Arfaethedig 4AP049

- 4.2.8 Yn dilyn cais PIL, symudwyd y peilon hwn tua 8m i'r de i leihau'r effaith bosibl ar weithrediadau amaethyddol.
- 4.2.9 Mae'r newid yn cael ei ddangos yn Ffigur C-4 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Peilon Arfaethedig 4AP050

- 4.2.10 O ganlyniad i gais PIL, gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP050. Mae'r peilon arfaethedig wedi cael ei symud tua 23m i'r de i sicrhau y byddai'n nes at ffin y cae.
- 4.2.11 Mae'r newid yn cael ei ddangos yn Ffigur C-4 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Lleoliad Peilonau rhwng Peilonau Arfaethedig 4AP053 – 4AP055

- 4.2.12 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP055. Roedd dyluniad Cam 3 yr Ymgynghoriad yn cynnig rhoi peilon 4AP055 mewn cynefin glaswelltir corsiog sy'n gysylltiedig â'r Ardal Cadwraeth Arbennig gyfagos, er nad yw'r cynefin ei hun wedi ei ddynodi'n uniongyrchol fel cynefin Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'r peilon arfaethedig wedi cael ei symud tua 70m i'r gogledd orllewin i ymyl ffin y cae (ac ymyl y cynefin glaswelltir corsiog). Mae adleoli peilon arfaethedig 4AP055 wedi arwain at ailosod peilonau arfaethedig 4AP053 a 4AP054 ar hyd yr aliniad i'r gogledd orllewin.
- 4.2.13 Mae'r newidiadau yn cael eu dangos yn Ffigur C-5 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Peilon Arfaethedig 4AP056

- 4.2.14 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed newid i ddefnyddio dyluniad peilon onglog llai swmpus ar gyfer peilon arfaethedig 4AP056.

Aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4AP056 a 4AP062

- 4.2.15 O ganlyniad i newid arfaethedig i'r aliniad yn Adran D yn ymwneud â Dolydd Newydd, a chynnwys y ddau ddewis - A a B, byddai amrywiad ymylol mewn nifer o leoliadau peilonau arfaethedig yn Adran C yn dibynnu ar y dewis a ddilynir.
- 4.2.16 Ceir manylion pellach am y newid arfaethedig yn Nolydd Newydd ym Mhennod 5 y ddogfen hon.
- 4.2.17 Mae'r newidiadau yn cael eu dangos yn Ffigurau C-6 i C-7 yn **Atodiad A** (Dewis A) ac yn **Atodiad B** (Dewis B) yr Adroddiad Dylunio.

Peilon Arfaethedig 4AP062

- 4.2.18 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP062. Roedd dyluniad Cam 3 yr Ymgynghoriad yn rhoi peilon arfaethedig 4AP062 mewn cynefin sy'n gysylltiedig â'r Ardal Cadwraeth Arbennig gyfagos, er nad yw'r cynefin ei hun wedi ei ddynodi'n uniongyrchol fel cynefin Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'r peilon arfaethedig wedi cael ei symud tua 60m i'r gogledd i sicrhau y byddai wedi ei leoli mewn cynefin llai sensitif, gan leihau effeithiau ecolegol posibl ymhellach. Mae'r newid hwn wedi arwain at beidio â pharu peilon arfaethedig 4AP062 a pheilon presennol 4ZA064.
- 4.2.19 Mae'r newid yn cael ei ddangos yn Ffigur C-7 yn **Atodiad A** (Dewis A) ac **Atodiad B** (Dewis B) yr Adroddiad Dylunio.

Gwaith Dros Dro

Ceg cloch

- 4.2.20 Cynigir 10 o bwyntiau mynediad ceg cloch er mwyn galluogi traffig adeiladu i gyrraedd y Datblygiad Arfaethedig. Mae hyn yn ostyngiad bychan o'r 11 ceg cloch a gynigiwyd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad.
- 4.2.21 Mae'r chwe lleoliad lle mae lleoliadau ceg cloch wedi cael eu newid ers Cam 3 yr Ymgynghoriad. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig i leoliadau arfaethedig ceg cloch yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio.

Traciau Mynediad

- 4.2.22 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i gynigion mynediad ar gyfer gwaith National Grid a gwaith Trydydd Parti yn Adran C.

- 4.2.23 Mae'r Adroddiad Dylunio'n darparu manylion sy'n ymwneud â newidiadau i 12 rhan o lwybr mynediad National Grid a naw rhan o drac mynediad Trydydd Parti.
- 4.2.24 Mae'r newidiadau i gynigion mynediad wedi deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adborth ymgynghori a gwaith dylunio parhaus gan dîm y prosiect. Mae symudiadau i'r seilwaith gweithredol hefyd wedi arwain at nifer o gynigion o ran mynediad.
- 4.2.25 Dangosir yr holl newidiadau arfaethedig i draciau mynediad National Grid yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio. Dangosir newidiadau i waith Trydydd Parti yn **Atodiad E** yr Adroddiad Dylunio.

5 Adran D: B5110 i'r gogledd o Dalwrn i Ceint

5.1 CYFLWYNIAD

- 5.1.1 Mae'r Adroddiad Dylunio yn cynnwys disgrifiad cryno o'r agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig yn Adran D ynghyd â'r rhesymeg dylunio lleol. Y mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad yn dilyn Ymgynghori ar Gam 3.
- 5.1.2 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3 y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfen 5.3**), gwnaed cais am ddau ddewis mewn perthynas â'r llinell uwchben 400kV (Dewis A a Dewis B). Yn Adran D, byddai hyn yn golygu lleoliadau gwahanol ar gyfer y peilonau arfaethedig rhwng y ddau ddewis. Nodir yr achosion lle byddai newid arfaethedig yn benodol i'r dewis.

5.2 NEWIDIADAU DYLUNIO ERS CAM 3 YR YMGYNGHORIAD

Gwaith Parhaol - Dewis A

- 5.2.1 Isod, disgrifir y newidiadau arfaethedig i'r dyluniad yn Adran D (Dewis A) ers Cam 3 yr Ymgynghoriad, sy'n arwain at y Datblygiad Arfaethedig.

Peilonau Arfaethedig 4AP064 – 4AP067

- 5.2.2 Gwnaed newid i ran o linell uwchben arfaethedig 4AP rhwng peilonau arfaethedig 4AP064 a 4AP067 yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad.
- 5.2.3 Er mwyn gallu cyflawni Dewis A, gwnaed y newidiadau a ganlyn:
- Mae peilon arfaethedig 4AP064 wedi cael ei symud tua 10m i'r de i sicrhau y byddai'n alinio â pheilon presennol AZA066;
 - Mae peilon Arfaethedig 4AP065 wedi cael ei ddileu;
 - Mae peilon arfaethedig 4AP066 wedi symud tua 75m i'r gogledd-ddwyrain (erbyn hyn tua 60m i'r gogledd-orllewin o Ddolydd Newydd, lle'r oedd gynt tua 35m i'r gorllewin o Ddolydd Newydd); ac
 - Mae peilon arfaethedig 4AP066 wedi cael ei newid i beilon tensiwn o beilon hongiad.

- 5.2.4 Gellir gweld y newid yn Ffigurau D-1 i D-2 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Gwaith Parhaol - Dewis B

- 5.2.5 Isod, disgrifir y newidiadau arfaethedig i'r dyluniad yn Adran D (Dewis B) ers Cam 3 yr Ymgynghoriad, sy'n arwain at y Datblygiad Arfaethedig.

Peilonau Arfaethedig 4AP064 – 4AP065

- 5.2.6 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP064, gan ei symud tua 75m i'r gogledd orllewin ar hyd aliniad arfaethedig llinell uwchben 4AP i'r cae cyfochrog, gan sicrhau y byddai y y tu allan i olygfeydd uniongyrchol o'r eiddo yn Nhŷ Mawr, gan leihau'r effeithiau posibl ar yr eiddo hwn
- 5.2.7 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP065, gan ei symud oddeutu 65m i'r gogledd orllewin i gefn yr ysgubor yn y cae cyfochrog. Byddai ail-leoli'r peilon yn golygu bod y dargludwyr yn mynd dros ardd Madryn, ond byddai'r effeithiau tebygol ar y golygfeydd i'r dwyrain o'r eiddo yn cael eu lleihau.
- 5.2.8 Gellir gweld y newid yn Ffigur D-1 yn **Atodiad B** yr Adroddiad Dylunio.

Gwaith Dros Dro

Ceg cloch

- 5.2.9 Cynigir pedwar pwynt mynediad ceg cloch er mwyn galluogi traffig adeiladu i gyrraedd y Datblygiad Arfaethedig. Mae hyn yn ostyngiad o'r chwe ceg cloch a gynigiwyd yn nyluniad Cam 3 yr Ymgynghoriad.
- 5.2.10 Mae'r Adroddiad Dylunio yn rhoi manylion am bedwar lleoliad lle mae lleoliadau ceg cloch wedi cael eu newid ers Cam 3 yr Ymgynghoriad. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig i leoliadau arfaethedig ceg cloch yn **Atodiad C** (Dewis A) ac **Atodiad D** (Dewis B) yr Adroddiad Dylunio.

Traciau Mynediad

- 5.2.11 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i gynigion mynediad ar gyfer gwaith National Grid a gwaith Trydydd Parti yn Adran D.
- 5.2.12 Mae'r Adroddiad Dylunio'n darparu manylion sy'n ymwneud â newidiadau i chwe rhan o lwybr mynediad National Grid a dau ran o drac mynediad Trydydd Parti.

- 5.2.13 Mae'r newidiadau i gynigion mynediad wedi deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adborth ymgynghori a gwaith dylunio parhaus gan dîm y prosiect. Mae symudiadau i'r seilwaith gweithredol hefyd wedi arwain at nifer o gynigion o ran mynediad.
- 5.2.14 Dangosir yr holl newidiadau arfaethedig i draciau mynediad National Grid yn **Atodiad C** (Dewis A) ac **Atodiad D** (Dewis B) yr Adroddiad Dylunio. Dangosir newidiadau i waith Trydydd Parti yn **Atodiad E** (Dewis A) ac **Atodiad F** (Dewis B) yr Adroddiad Dylunio.

5.3 COMPOWND ADEILADU LÔN PENMYNYDD

Trosolwg

- 5.3.1 Mae angen compownd adeiladu dros dro drwy gydol y gwaith o adeiladu agweddau llinellau uwchben y Datblygiad Arfaethedig.

Heriau dylunio yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad

- 5.3.2 Yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad, cynigiwyd dau faes cyfagos fel lleoliad y compownd adeiladu; y cae sydd bellach wedi ei ddatblygu fel safle arfaethedig y compownd adeiladu ar gyfer y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu; a'r cae yn union gyfagos i'r gorllewin (yn union gyfagos i eiddo Ty'n y Felin).
- 5.3.3 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, tynnwyd y cae gorllewinol o'r dyluniad, gan adael dim ond y cae dwyreiniol ar gyfer y compownd adeiladu arfaethedig. Dewiswyd y cae dwyreiniol fel y byddai'r compownd adeiladu:
- Ymhellach i ffwrdd o'r eiddo yn Nhy'n y Felin;
 - Yn osgoi'r potensial o achosi effeithiau ychwanegol ar wrychoedd pwysig sy'n ffurfio ffiniau gogledd orllewinol a de-ddwyreiniol y cae gorllewinol; ac
 - Yn fwy gwastad ac yn fwy addas ar gyfer adeiladu.
- 5.3.4 Dangosir y mireinio i'r tir ar gyfer y compownd adeiladu yn Ffigur D-4 yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio.

6 Adran E: Ceint i Afon Braint

6.1 CYFLWYNIAD

6.1.1 Mae'r Adroddiad Dylunio yn cynnwys disgrifiad cryno o'r agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig yn Adran E ynghyd â'r rhesymeg dylunio lleol. Y mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad yn dilyn Ymgynghori ar Gam 3.

6.2 NEWIDIADAU DYLUNIO ERS CAM 3 YR YMGYNGHORIAD

6.2.1 Isod, ceir disgrifiad o'r crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad parhaol a thros dro yn Adran E o'r llwybr ers Cam 3 yr Ymgynghoriad.

Gwaith Parhaol

Peilon Arfaethedig 4AP076

6.2.2 Yn dilyn cais PIL yn ystod Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP076. Mae'r peilon arfaethedig wedi cael ei symud tua 15m i'r de i sicrhau y byddai'n nes at ffin y cae.

6.2.3 Mae'r newid yn cael ei ddangos yn Ffigur E-1 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Aliniad rhwng peilonau arfaethedig 4AP078 – 4AP082

6.2.4 Gwnaed newid i aliniad y llinell uwchben arfaethedig rhwng peilonau arfaethedig 4AP078 a 4AP082 i leihau'r effeithiau gweledol ar yr eiddo yn Fron Deg, Tyn Cae a Pharadwys, a symud y llinell uwchben ymhellach i ffwrdd o eiddo eraill i'r gogledd.

6.2.5 Mae'r newid yn cael ei ddangos yn Ffigurau E-2 ac E-3 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Peilon Arfaethedig 4AP083

6.2.6 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP083 fel ei fod yn beilon onglog llai swmpus yn y safle amlwg iawn hwn.

Peilonau Arfaethedig 4AP084, 4AP085 a 4AP086

6.2.7 Gwnaed newid i beilonau arfaethedig 4AP085 a 4AP086 yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad i newid math y peilonau i beilonau uchder isel er mwyn

lleihau'r effeithiau gweledol posibl ar bentref Star tua'r gogledd a golygfeydd tuag at Eryri a Phenrhyn Llŷn.

- 6.2.8 Er mwyn darparu ar gyfer y newid i beilonau uchder isel, roedd angen newid peilon arfaethedig 4AP084 i beilon tensiwn.

Gwaith Dros Dro

Ceg cloch

- 6.2.9 Cynigir wyth o bwyntiau mynediad ceg cloch er mwyn galluogi traffig adeiladu i gyrraedd y Datblygiad Arfaethedig. Mae hyn yn ostyngiad bychan o'r naw ceg cloch a gynigiwyd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad.
- 6.2.10 Mae'r Adroddiad Dylunio yn rhoi manylion am wyth lleoliad lle mae lleoliadau ceg cloch wedi cael eu newid ers Cam 3 yr Ymgynghoriad. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig i leoliadau arfaethedig ceg cloch yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio.

Traciau Mynediad

- 6.2.11 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i gynigion mynediad ar gyfer gwaith National Grid a gwaith Trydydd Parti yn Adran D.
- 6.2.12 Mae'r Adroddiad Dylunio'n darparu manylion sy'n ymwneud â newidiadau i saith rhan o lwybr mynediad National Grid a chwe rhan o drac mynediad Trydydd Parti.
- 6.2.13 Mae'r newidiadau i gynigion mynediad wedi deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adborth ymgynghori a gwaith dylunio parhaus gan dîm y prosiect. Mae symudiadau i'r seilwaith gweithredol hefyd wedi arwain at nifer o gynigion o ran mynediad.
- 6.2.14 Dangosir yr holl newidiadau arfaethedig i draciau mynediad National Grid yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio. Dangosir newidiadau i waith Trydydd Parti yn **Atodiad E** yr Adroddiad Dylunio.

7 Adran F: Afon Braint i Bentir

7.1 CYFLWYNIAD

7.1.1 Mae'r Adroddiad Dylunio yn cynnwys disgrifiad cryno o'r agweddau ar y Datblygiad Arfaethedig yn Adran E ynghyd â'r rhesymeg dylunio lleol. Y mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad yn dilyn Ymgynghori ar Gam 3.

7.2 NEWIDIADAU DYLUNIO ERS CAM 3 YR YMGYNGHORIAD

7.2.1 Isod, ceir disgrifiad o'r crynodeb o'r prif newidiadau i'r dyluniad parhaol a thros dro yn Adran F o'r llwybr ers Cam 3 yr Ymgynghoriad.

Gwaith Parhaol yn Ynys Môn

Lleoliadau Peilonau

Peilon Arfaethedig 4AP087

7.2.2 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP087 i newid y math o beilon i beilon delltwaith uchder isel. Mae llinell uwchben arfaethedig 4AP wedi ael ei newid yn y rhwn hwn i leihau'r effeithiau gweledol ar bentref Star i'r gogledd a golygfeydd tuag at Eryri a Phenrhyn Llŷn.

Tŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Ceblau Braint

7.2.3 Darparwyd dyluniadau dangosol, gan gynnwys cynlluniau a drychiadau, o Dŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Ceblau Braint yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad. Ers yr amser hwnnw, datblygwyd y dyluniad o safbwynt peirianyddol; rhoddwyd ystyriaeth hefyd i osodiad, lefelau, ffurf adeiladu a dylunio, tirlunio a mynediad. Ystyriwyd hyn ochr yn ochr ag ymatebion i'r ymgynghoriad.

7.2.4 Mae uchder uchaf arfaethedig Tŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Ceblau Braint wedi cael ei leihau'n sylweddol. Mae dyluniad manwl pellach wedi dod i'r casgliad y dylid tynnu aer drwy'r twannel o siafft Tŷ Fodol yng Ngwynedd, gan fod hwn yn uwch na Braint. O ganlyniad, nid yw National Grid Cenedlaethol yn cynnig gosod gwyntyllau awyru twannel yn Braint, gan alluogi gostwng uchder uchaf y Tŷ Pen Twannel o 12 metr (fel y cynigiwyd yn wreiddiol) hyd at 8 metr. Byddai'r newid hwn i'r dyluniad o gymorth sylweddol i wella'r adeilad yn y dirwedd wledig, a chynyddu effeithiolrwydd sgrinio.

7.2.5 I ategu'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, mae National Grid wedi paratoi Canllaw Dylunio (**Dogfen 7.19**) ar gyfer y Tai Pen Twannel/Compowndiau Terfyn Selio Cebiau arfaethedig a gwaith tirlunio parhaol ar y safle. Mae hyn yn rhoi manylion am yr egwyddorion dylunio a fyddai'n cael eu dilyn wrth gwblhau cynllun pensaernïol manwl Tŷ Pen Twannel Braint. Mae'r Canllaw yn darparu gwybodaeth am ddeunyddiau addas a ffurf adeiladu, gan geisio adlewyrchu arddulliau adeiladu lleol. O ganlyniad i'r datblygiad dylunio pellach hwn, byddai'r Tŷ Pen Twannel yn cael ei gymathu'n well i'r dirwedd leol. Mae'r Canllaw hefyd yn rhoi manylion am y cynllun tirlunio ar safle'r compownd, a fyddai, yn y tymor canolig a'r tymor hir, yn helpu i liniaru a sgrinio'r Tŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Cebiau yn weledol.

Gwaith Parhaol yng Ngwynedd

Lleoliadau Peilonau

Aliniad arfaethedig y llinell uwchben rhwng Tŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Cebiau Tŷ Fodol a Pheilon Arfaethedig 4AP091

7.2.6 Mae aliniad arfaethedig y llinell uwchben rhwng Tŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Cebiau arfaethedig Tŷ Fodol wedi cael ei newid i hwyluso mynediad at Dŷ Fodol ac i leihau effaith weledol y cysylltiad ag Is-orsaf Pentir. Mae peilonau arfaethedig 4AP088 a 4AP089 wedi cael eu hail-leoli i'r de (tua 38m a 22m yn y drefn honno); mae peilon arfaethedig 4AP090 wedi cael ei ail-leoli tua 22m i'r gogledd; mae hyn yn sicrhau bod alinio llinell uwchben arfaethedig 4AP yn parhau mor syth â phosibl yn unol â Rheol 3 Holford.

7.2.7 Byddai llinell uwchben wedi ei hadlinio 4AP yn agosach at y dyffryn coediog i'r de a byddai'n golygu bod y llinell uwchben ymhellach i ffwrdd o'r eiddo preswyl i'r gogledd, sef Fodol a Hafodol Uchaf. Byddai'r adlinio hefyd yn ailosod peilon arfaethedig 4AP090 ymhellach i ffwrdd o Fferm Garth i'r de ac yn newid cynllun y peilon o beilon tensiwn mwy swmpus i beilon hongiad.

7.2.8 Gwnaed newid i beilon arfaethedig 4AP088 yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad i newid y math o beilon i beilon delltwaith uchder isel. Mae llinell uwchben arfaethedig 4AP wedi cael ei newid yn yr adran hon i leihau'r effeithiau ar olygfeydd, yn enwedig o'r gogledd.

7.2.9 Mae'r newid yn cael ei ddangos yn Ffigurau F-4 ac F-5 yn **Atodiad A** yr Adroddiad Dylunio.

Tŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Cebiau Tŷ Fodol

7.2.10 Darparwyd dyluniadau dangosol, gan gynnwys cynlluniau a drychiadau, o Dŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Cebiau Tŷ Fodol yng Ngham 3 yr

Ymgynghoriad. Ers yr amser hwnnw, datblygwyd y dyluniad ymhellach o safbwynt peirianyddol; rhoddwyd ystyriaeth hefyd i osodiad, lefelau, ffurf adeiladu a dylunio, tirlunio a mynediad. Ystyriwyd hyn ochr yn ochr ag ymatebion i'r ymgynghoriad.

- 7.2.11 Er mwyn cynnwys y Tai Pen Twannel/Compowndiau Terfyn Selio Cebiau yn well yn y dirwedd leol a helpu i leihau effeithiau gweledol ehangach, mae'r dyluniad dangosol a gynigir yn awr yn cynnwys creu safleoedd datblygu lefel is, gan ostwng lefelau gorffen o'r tir cyfagos i'r Compowndiau, ac eto i lefel y safle yn achos compownd y Tai Pen Twannel. Dangosir hyn yn y Cynlluniau Dylunio (**Dogfen 4.13**). Drwy dorri i'r llethr presennol fel hyn, byddai uchder ymddangosiadol cyfarpar allanol a'r Tŷ Pen Twannel (uwchben seilnod ordnans) yn cael ei leihau, a byddai graddfa a maint yr effeithiau ar y golygfeydd yn llai.
- 7.2.12 I ategu'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, mae National Grid wedi paratoi Canllaw Dylunio (**Dogfen 7.19**) ar gyfer y Tai Pen Twannel arfaethedig a gwaith tirlunio parhaol ar y safle. Mae hyn yn rhoi manylion am yr egwyddorion dylunio a fyddai'n cael eu dilyn wrth gwblhau cynllun pensaernïol manwl Tŷ Pen Twannel Tŷ Fodol. Mae'r Canllaw yn darparu gwybodaeth am ddeunyddiau addas a ffurf adeiladu, gan geisio adlewyrchu arddulliau adeiladu lleol.
- 7.2.13 Er mai dim ond 11 metr y gellir gostwng uchder mwyaf adeilad Tŷ Pen Twannel Tŷ Fodol oherwydd yr angen i gynnwys gwyntyllau awyru twannel, mae'r Canllaw Dylunio yn cynnig y dylai'r ffurf adeiledig gynnwys pedair elfen, wedi eu diffinio'n bennaf gan broffiliau to amrywiol, gan leihau màs amlwg yr adeilad. Byddai'r effaith hon yn cael ei gwella ymhellach drwy ddefnyddio deunyddiau cladin allanol amrywiol, i dorri'r drychiadau mwy o faint yn ddarnau llai yn weledol. O ganlyniad i'r datblygiad dylunio pellach hwn, byddai'r Tŷ Pen Twannel yn nodwedd llai amlwg yn y dirwedd leol.
- 7.2.14 Mae'r Canllaw hefyd yn rhoi manylion am y cynllun tirlunio ar safle'r compownd, a fyddai, yn y tymor canolig a'r tymor hir, yn helpu i liniaru a sgrinio'r Tŷ Pen Twannel/Compownd Terfyn Selio Cebiau yn weledol.

Is-orsaf Pentir

- 7.2.15 Yn Is-orsaf Pentir, bwriedir cysylltu llinell uwchben arfaethedig 4AP drwy adeiladu estyniad y ddwy ochr i'r is-orsaf (estyniadau gogledd orllewinol a de-ddwyreiniol). Rydym yn ffafrio estyniadau ar ddwy ochr yr is-orsaf yn hytrach nag estyniad mawr unigol gan y byddai hyn yn galluogi defnyddio rhywfaint o'r llystyfiant presennol ar y naill ochr a'r llall i'r is-orsaf ar gyfer sgrinio. Byddai'r offer a gynigir fel rhan o estyniad yr is-orsaf yn cael ei gynnal

gan y colofnau wedi eu hinswleiddio isod yn hytrach na'u hongian o nenbontydd oddi uchod, yn yr un modd â llawer o offer yr is-orsaf hŷn. Yn y modd hwn, byddai proffil cyffredinol estyniadau'r is-orsaf yn sylweddol is nag yr is-orsaf bresennol, gan ganiatáu i sgrinio'r dirwedd fod yn effeithiol mewn amserlen fyrrach.

- 7.2.16 Mae maint yr estyniad i'r is-orsaf tua'r gogledd-orllewin wedi gostwng o tua 141 metr i tua 52 metr oherwydd ateb arall sy'n darparu diogelwch system heb yr angen i ychwanegu adran fws ychwanegol ac adleoli un o'r cylchedau trosglwyddo presennol at yr adran newydd hon i'r gogledd orllewin o'r is-orsaf bresennol. Mae'r estyniad llai o faint sydd ei angen i'r gogledd orllewin yn ffitio o fewn y llain o dir yn fwy effeithlon, gan ddileu'r angen i newid cyfeiriad y barrau bysiau a oedd yn ymestyn yr estyniad a oedd ei angen. Byddai hyd llai yr estyniad yn arwain at leihau effeithiau adeiladu a rhyddhau ardaloedd ychwanegol ar gyfer plannu sgrin ymylol.
- 7.2.17 Fel y nodir yn y Canllaw Dylunio (**Dogfen 7.19**) mae National Grid yn cynnig gweithredu cynllun tirlunio o amgylch yr is-orsaf estynedig, er mwyn cymhathu'r safle yn well yn y dirwedd, a sgrinio golygfeydd o'r safle o eiddo cyfagos a golygfannau cyhoeddus. Byddai hyn hefyd yn arwain at fuddion cadwraeth natur lleol pwysig.

Gwaith Dros Dro

Compownd Adeiladu Pentir

- 7.2.18 Byddai angen compownd adeiladu dros dro yn Adran F i hwyluso'r gwaith o adeiladu elfennau llinellau uwchben y Datblygiad Arfaethedig. Byddai'r compownd hwn wedi ei leoli yn union i'r de o is-orsaf Pentir.
- 7.2.19 Mae lleoliad Compownd Adeiladu llinell uwchben Pentir wedi aros yr un fath ag yr oedd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad. Mae maint Compownd Adeiladu llinell uwchben Pentir yn dal yn debyg iawn i'r hyn a ddangosir yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad, ond cynigir newid i leoli Compownd yr Is-orsaf (a gynigiwyd yn flaenorol i'r dwyrain o Is-orsaf Pentir) o fewn Compownd y llinell uwchben i'r de.
- 7.2.20 Byddai'r newid hwn yn fuddiol gan na fyddai angen defnyddio'r ardal i'r dwyrain o is-orsaf Pentir ar gyfer Compownd yr Is-orsaf, gan ei ryddhau fel lle ychwanegol ar gyfer bwndio a thirlunio yn gynnar yn y cyfnod adeiladu, a chaniatáu i blanhigion wreiddio, a thrwy hynny leihau'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd.

Ceg cloch

- 7.2.21 Cynigir 13 o bwyntiau mynediad ceg cloch er mwyn galluogi traffig adeiladu i gyrraedd y Datblygiad Arfaethedig. Byddai tri o'r rhain yn cael eu lleoli ar ochr Ynys Môn o Adran F a 10 yn cael eu lleoli yng Ngwynedd. Mae hyn yn ostyngiad bychan o'r 15 ceg cloch a gynigiwyd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad.
- 7.2.22 Mae'r Adroddiad Dylunio yn rhoi manylion am bum lleoliad lle mae lleoliadau ceg cloch wedi cael eu newid ers Cam 3 yr Ymgynghoriad. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig i leoliadau arfaethedig ceg cloch yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio.

Traciau Mynediad

- 7.2.23 Yn dilyn Cam 3 yr Ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i gynigion mynediad ar gyfer gwaith National Grid a gwaith Trydydd Parti yn Adran D.
- 7.2.24 Mae'r Adroddiad Dylunio yn rhoi manylion sy'n ymwneud â newidiadau i bedwar rhan o lwybr mynediad National Grid a thri rhan o drac mynediad Trydydd Parti, gan gynnwys newidiadau sylweddol yng nghyffiniau Tŷ Fodol ac Is-orsaf Pentir.
- 7.2.25 Mae'r newidiadau i gynigion mynediad wedi deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adborth ymgynghori a gwaith dylunio parhaus gan dîm y prosiect. Mae symudiadau i'r seilwaith gweithredol hefyd wedi arwain at nifer o gynigion o ran mynediad.
- 7.2.26 Dangosir yr holl newidiadau arfaethedig i draciau mynediad National Grid yn **Atodiad C** yr Adroddiad Dylunio. Dangosir newidiadau i waith Trydydd Parti yn **Atodiad E** yr Adroddiad Dylunio.

8 Casgliad

- 8.1.1 Bwriad y ddogfen hon yw crynhoi - o ganlyniad i adborth ymgynghori, ymgysylltu â PIL a gwaith dylunio parhaus gan dîm y prosiect - y newidiadau dylunio ar hyd y llwybr cyfan sydd wedi galluogi National Grid i ymgorffori Lliniaru trwy Ddylunio er mwyn gwella'r dyluniad yn sylweddol ers Cam 3 yr Ymgynghoriad.
- 8.1.2 Mae rhai o'r newidiadau mwy sylweddol a gynigir ers Cam 3 yr Ymgynghoriad, a fyddai'n lleihau effeithiau sylweddol posibl ar sawl derbynnydd, yn cynnwys:
- Y newid i'r aliniad o ganlyniad i brynu'r eiddo yn Cae Adda Fach yn Adran A;
 - Y newid i'r aliniad o ganlyniad i brynu'r eiddo ym Mryn Alaw yn Adran B;
 - Y potensial i newid yr aliniad o ganlyniad i gynnwys Dewisiadau A a B a thrafodaethau mewn perthynas â'r eiddo yn Nolydd Newydd yn Adran D;
 - Llunio'r Canllaw Dylunio (**Dogfen 7.19**) a'r newidiadau arfaethedig i ddyluniad Tai Pen Twannel a Chompowndiau Terfyn Selio Ceblau Braint a Thŷ Fodol; a
 - Lleihau graddfa'r estyniadau arfaethedig blaenorol yn Is-orsafoedd Wylfa a Phentir.
- 8.1.3 Yn ychwanegol at y newidiadau arfaethedig hyn, nodwyd cyfleoedd i wella aliniad posibl y llwybr a fyddai'n arwain at ddyluniad mwy cyfochrog ac wedi ei alinio'n well na'r hyn a gynigiwyd yng Ngham 3 yr Ymgynghoriad.
- 8.1.4 Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau i'r dyluniad (naill ai'n sylweddol neu'n fwy lleol) a wnaed i'r gwaith parhaol a thros dro a ddisgrifiwyd uchod wedi helpu i leihau lefel yr effeithiau amgylcheddol a/neu economaidd-gymdeithasol posibl, ac felly'n cynrychioli Lliniaru trwy Ddylunio pellach.